W 2
2198
TS 1179
(10)
947

# CAN DDUWIOL;

YN GOSOD ALLAN

Y Siomedigaeth o roddi Hyder ar y Byd Daearol,

YN NGHYD A'R

BODDLONDEB O YMDDIRIED

YN Y GWIR AMDDIFFYNWR.

Gan y Parchedig WILLIAM WILLIAMS.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

---

*Bala, argraffedig gan R. Saunderson......*1811.

---

AR ryw ddiwrnod hafaidd hynod,
Mewn myfyrdod wrthai 'm hun,
Mi orphwysais dan bren gwyrdd-las,
Heb gymdeithas unrhyw ddyn;
Griddfan 'r oeddwn ac och'neidio,
Holi a chwestiyno yn ddwys;
P'le cawn i gyfaill erbyn adfyd,
I roddi 'm goglud a'm holl bwys.

Dechreuais chwilio 'r greadigaeth,
Eang, helaeth, odiaeth, wiw,
Megys Plentyn anghall cyndyn,
I ymofyn rhosyn hardd ei liw,
Edrych arno, hwnw yn gwywo,
Rhwng fy nwylo heb ddim llês,
Colli ngafael arno yn ddirgel,
Ar yr awel gynta' o wrês.

Heb blentyn nac etifedd, ond y fi (mawr fy anrhydedd!)

Pe meddwn ranau gwledydd *India*,
Sidan *Persia*, aur *Peryw*,
Cyfoeth *Tyrci* a *Myscofi*,
I'm difyru tra bwyf byw;
'Nhwy a gymren' eu hadenydd,
Ryw foreuddydd neu brydnawn,
Megys 'deryn gwyllt i'r goedwig,
Ail gynnyg arno byth ni chawn.

Gwraig a phlant a ffrins anwylgu,
Sydd yn cefnu arnai 'n lân;
Gan fy ngadael yn fy nhrafael,
Gwres a rhyfel brwd a thân,
Pan ddelo 'stormydd fel cawodydd,
Mawr o gystudd am fy mhen,
Ni welai gyfaill dianwadal,
A all fy nghynnal dan y nen.

Mi welais genyf ffrind a hoffais,
Ac mi a'i cerais megys brawd;
Addawodd i mi ddillad *Mefled*,
A gwisg o 'sgarlad am fy nghnawd,
Mi gawn bob peth wrth fodd fy nghalon,
Os byddwn iddo yn ffyddlon was,
Cawn fyw 'n ddiddiffyg fel gwr boneddig,
A dawns a *miwsig* yn ei blas.

Mi 'sgrifenaf enw 'r cyfaill,
Y BYD a'i ddichel llawn o frâd,
Llawn o dwyll a llawn o wenwyn,
O goppa ei goryn hyd ei draed,
Fe addawodd i mi fil o bethau,
Nes fy hudo â chwedl dêg:
Er mor llyfyn oedd ei ymadrodd,
Ni chyflawnodd un o ddêg.

Dechreuais goffa yr hen addewidion
A fuase' rhyngom ni cyn hyn,
P'le mae 'r byw fel gwr boneddig,
P'le mae'r crys o *gamrig* gwyn,
P'le mae'r gwely mân-blu tyner,
P'le mae'r gader wiw-ber ddrud,
P'le mae'r seigiau bras a'r sweewr,
P'le mae'r gwin a'r parlwr clud.

P'le mae'r dillad hardd o *felfed*,
P'le mae'r wisg o 'scarlad main,
P'le mae'r etifeddiaeth wiw-gof,
Ai i gyd yn anghof aeth y rhai'n,
P'le mae'r tai a'r tiroedd llydain,
P'le mae'r arian, p'le mae 'r aur;
Rho addawest i mi yn ernest,
Beth dal gwr onest ond ei air.

P'le mae'r hawddfyd a'r pleserau,
A'r trysorau hardd eu drych,
P'le mae'r march a gai farchogaeth,
P'le mae'r etifeddiaeth wych:
Fe'm hatebai 'n ddigon chwerw,
A golwg arw salw ei wêdd,
Na chawn i ganddo ond arch ac amdo,
Na thir i geibio ond byd fy mêdd.

Fe aeth fy nghalon yn aflonydd,
Pan glywais i 'r fath newydd syn,
Ar ol ymdeithio yn fy lludded,
Tyla gwared pant a bryn,
H if a Gauaf tywydd garw,
Goddef llawer chwerw loes;
Y byd a'i olud a ddiflanodd,
Fe'm gadawodd tan y groes.

Hudodd *Demas,* crogodd *Iudas,*
A *Haman* ddiras gyda rhain,
*Iesebel* a'r Cawr *Goliah,*
A roddwyd rhwng y cwn a'r brain;
Arweiniodd fyrddiwn wrth ei gadwyn,
I'r pwll dyfwn dan y clo,
Tynodd berfedd hen *Iehoram,*
Yr adyn truan trwm yw 'r tro.

Fe yrodd *Ahab* i wallgofi,
A *Zimri* i ymlosgi yn y tân,
Brenin *Herod* er mor laned,
A roddodd rhwng y pryſed mân;
Mawrion greigiau 'n erbyn creigydd,
Curodd 'menydd llawer mîl,
Y mae 'n arwain pawb ar ddidro,
Na byddo 'n rhodio 'r llwybr cûl.

Ni chaf fi ddarllain gair na'i wrando,
Na myfyrio am fyd a ddaw;
Aflonyddu fy meddyliau,
Weithiau yma ac weithiau draw,
O fy nhraed i goppa 'nghoryn,
Fe wnaeth fy esgyrn gwan yn friw;
Nes magu llawer dolur chwerw,
'Rwy 'n hanner marw er bod yn fyw.

Ffarwel iddo mi a'i gadawa',
Af oddi yma i ryw wlad bell;
Mae fy hyder a fy ngobaith,
Y caf fi ryw gydymaith gwell:
Gwell i'w dau nag un bob oesoedd,
I dramwy drwy 'r ardaloedd cûl;
Y'mhob gofidiau a chaledi,
Mae 'r Iesu yn well na deg can mîl.

Fe drugarâodd ei nefol anian,
With ferch y wraig o *Ganaan* wlad,
Fe ddaeth yn union a'r *mub afradlon*
Adre' yn dirion at ei dâd;
Cyfaill ffyddlon pur ei anian,
Nerth i'r egwan cadarn dŵr,
Am ei braidd y mae 'n gofalu,
Cyn a chwedi 'r diluw dw'r.

Fe fu gyda 'r Prophwyd *Iona*,
Gynt yn mola 'r morfil mawr,
Gyda *Dafydd* yn rhyfela,
Gynt â hen *Goliah* Gawr,
Gyda *Phaul* a'r hen ddysgyblion,
Yn tawelu 'r 'storom gref,
Gyda *Phetr* ar y dyfroedd,
Ymaflodd yn ei ddwylaw ef.

Dyma 'r *Perl* a gâr fy enaid,
Y'mhob caethiwed fach a mawr,
IESU yn groyw dan ei enw,
Sydd yn llanw nef a llawr;
PERL a bery yn dragywydd,
PERL o ddefnydd mawr ei bris,
*Alpha Omega* fy enaid cofia;
Na foddlona ar ddim sydd îs.

Perl ni thoddir, perl ni losgir,
Perl ni threulir byth i ma's;
Perl a welir yn dysgleirio,
Pan ddarfyddo 'r ddaear lâs,
Perl a wneiff i'r rhai a'i caffo,
Seinio cân na dderfydd byth;
O fewn i gaere 'r nefoedd ole',
Y'mysg myrddiyne o rif y gwlith:

Mi gaf weithian fel *Philoman*,
Roi ergyd ar yr *Organ* bêr,
I'r hwn a'm carodd ac a'm nerthodd,
Awdwr bydoedd mawr a sêr;
Tad goleuni awdwr bywyd,
Pwysaf ar ei addewid ef,
Tana droswyf d' adain dirion,
Pan y delo 'r 'storom gref.

Fe addawodd i mi wisgoedd gwynion,
Yn lle bratiau budron tlawd,
Gwisg a bery heb waethygu,
Cyfiawnder Iesu anwylgu frawd;
Gwisg drag'wyddol ni heneiddia,
Gwisg yw hon na threulia ddim,
Gwisg briodas yw ei henw,
Gwisg a geidw byth yn wyn.

Heb blentyn nac etifedd, ond y n (mawr fy anrhydedd!)

Pe meddwn ddawn rhyw angel uchod,
Neu seintiau 'r ddaear isod faith;
A chanu 'n gynnil flynyddau ganmil,
Yn mysg yr eppil eiddil iaith;
Methu wnawn a chwrdd â geiriau,
Boddi wna 'm synwyrau 'n lan,
Chwilio a darllen pob ysgrifen,
Methu gorphen ar y gân.

Caned yr angelion uchod,
A seintiau 'r ddaear isod faith;
Caned clych a chaned organ,
A phob aderyn wiwlan iaith;
Llwch a baban anwybodus,
Ac anfedrus iawn wyf fi:
Haleluia, sain Hosanna,
Mi ddystawa cehwch chwi.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

*Bala, Argraffedig gan*
*R. Saunderson.*